



Gwybodaeth i ymgeiswyr ar gyfer TAR Uwchradd Mathemateg

Llongyfarchiadau!

Rydych wedi'ch gwahodd i gyfweiliad ar gyfer lle ar y rhaglen TAR Uwchradd Mathemateg ym Mhrifysgol Metropolitan Caerdydd – rydym yn edrych ymlaen yn fawr iawn i gael cwrdd â chi a chael clywed am yr hyn sydd gennych i'w gynnig fel darpar athro Mathemateg uwchradd. Bydd y llythyr hwn yn rhoi gwybodaeth i chi am yr hyn y gofynnir i chi ei wneud yn ystod diwrnod y cyfweiliad, a bydd hefyd yn rhoi syniad clir i chi ynglŷn â'r hyn rydym yn chwilio amdano mewn darpar athro Mathemateg. Mae wedi'i ddylunio i'ch helpu i baratoi yn unol â hynny, i chi fod â'r cyfle gorau posib i fod yn llwyddiannus.

Bydd tair rhan i'r broses gyfweld, a allai gael eu cynnal mewn trefn wahanol i'r un a nodir.

Rhan 1

Fel rhan o'r broses gyfweld, bydd gofyn i ymgeiswyr ymgymryd â chyflwyniad rhwng 8 a 10 munud o hyd, pryd y byddan nhw'n addysgu'r rhai sy'n cyfweld/ymgeiswyr eraill. Gallwch ddewis unrhyw bwnc mathemateg y byddai'n briodol ei addysgu i ddsbarth Cyfnod Allweddol 3. Gellir gweld Rhaglen Astudio Cwricwlwm Cymru yma i'ch helpu: <http://learning.gov.wales/docs/learningwales/publications/150717-nc-maths-en-v2.pdf>

Byddwn yn chwilio am:

- ddull apelgar, brwdfrydig
- y meddwl gafodd ei roi i baratoi eich sesiwn
- gwybodaeth a dealltwriaeth sicr o'ch pwnc
- cyflwyno gwybodaeth/syniadau yn glir.

D.S. Does dim disgwyl i chi ddarparu cynllun gwers

Os byddwch yn bwriadu defnyddio adnoddau ar gyfer eich pennod fer o addysgu, bydd rhaid i chi eu darparu nhw i gyd, felly byddwch yn barod i ddod â nhw gyda chi. Bydd adnoddau PowerPoint a bwrdd gwyn ar gael i chi os byddwch eu hangen. Y nifer uchaf o bobl fydd ar gael ar gyfer eich pennod addysgu fydd chwech.



1. Cadwch bethau'n syml! Dydyn ni ddim yn chwilio am wers berffaith, dim ond eich potensial, felly bydd rhywbeth bach wedi ei ffocysu yn ddelfrydol.

2. Dewiswch bwnc rydych yn teimlo'n hyderus ac yn gyffyrddus yn ei gylch – cofiwch rydym yn awyddus i weld beth GALLWCH ei wneud ac nid beth na allwch ei wneud!

3. Ewch amdani...a mwynhewch!

Rhan 2

Bydd hyn yn cynnwys cyfweiliad unigol pryd y gallwch esbonio eich cymhellion i ddod yn athro Mathemateg uwchradd, a dangos faint rydych yn deall rôl yr athro mewn ysgol brif ffrwd. Cewch gyfle hefyd i ofyn cwestiynau i ni fel y gallwch wneud dewis gwybodus. Rydym am gael cyfle hefyd i sôn wrthyfych am ein prifysgol a'n rhaglen TAR Uwchradd gan ein bod yn credu bod llawer gennym i'w gynnig i athro dan hyfforddiant sy'n llawn awydd a dyhead ac rydym yn teimlo'r un mor gyffrous â chithau ynglŷn â'ch dyfodol!

Rhan 3

Byddwch yn gwneud profion mewn llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol. Bydd tasg ysgrifennu estynedig hefyd yn ymateb i erthygl ar bwnc addysgol er mwyn asesu eich sgiliau darllen ac ysgrifennu. Byddwch yn derbyn yr erthygl cyn y diwrnod i chi gael paratoi, felly daliwch ar y cyfle i'w darllen yn drylwyr ac i ddeall y prif bwyntiau. Bydd y rhan hon o'r diwrnod yn para tua dwy awr.

Cewch ragor o fanylion ar www.cardiffmet.ac.uk/pgcsecondary

Edrychwn ymlaen i gael cwrdd â chi yn y cyfweiliad a dymunwn bob hwyl i chi ar y diwrnod. A wnewch chi gyrraedd prif fynedfa Campws Cyncoed 15 munud cyn yr amser a nodwyd er mwyn i ni gael dechrau'r rhaglen yn brydlon.

Dymuniadau gorau

Steve McCarthy

Arweinydd Rhaglen TAR Uwchradd Mathemateg

Prifysgol Metropolitan Caerdydd



Met Caerdydd yw'r darparwr TAR Uwchradd mwyaf yng Nghymru ac un o'r mwyaf yn y DU. Yn ogystal, mae'n un o 4 prifysgol yn unig i gael eu hachredu ar gyfer Addysg Gychwynnol i Athrawon yng Nghymru o fis Medi 2019:

<https://www.ewc.wales/site/index.php/en/ite-accreditation/providers-of-initial-teacher-education-in-wales-from-2019.html>

Arolwg Profiad a Addysgwyd Uwchraddedigion	Postgraduate Taught Experience Survey
Ansawdd y dysgu a'r addysgu - 90%	
Boddhad â'r cwrs - 92%	
Boddhad â'r lleoliadau ysgol - 98%	
Cyfradd lwyddo 100%	
Mae 95% o'n hathrawon dan hyfforddiant yn cael swydd yn y sector (Arolwg DHLE 16/17)	

I gael rhagor o wybodaeth am ein cwrs, ewch i: <http://www.cardiffmet.ac.uk/education/courses/Pages/Secondary-PGCE.aspx>